



YSGOL BRO HYDDGEN

Tel: (01654 70 4200)
Ffacs: (01654 70 4994)

E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.

31 Ionawr 2019

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Weithiau mae amgylchiadau'n codi pan fo rhaid cau'r ysgol ar fyr rybudd. Gyda rhagolygon am dywydd garw ar y gorwel, dyma eich atgoffa o'r rhesymau pam y byddai rhaid cau'r ysgol ar fyrder:

Gall y rhesymau dros wneud penderfyniad o'r fath amrywio:

- Problem gyda'r cyflenwad dŵr
- Problemau gyda'r system wresogi
- Rhew neu iâ ar y buarth yn ei gwneud yn beryglus i blant
- Eira wedi disgyn yn yr ardal hon
- Eira wedi disgyn tu allan i'r ardal hon ac felly'n ei gwneud hi'n amhosib i nifer ddigonol o'r staff allu cyrraedd Machynlleth i redeg yr ysgol yn ddiogel
- Yr Awdurdod Addysg yn gorchymyn cau oherwydd tywydd drwg

Mae'r Awdurdod wedi rhoi arweiniad i ysgolion mewn amgylchiadau fel hyn, a bydd gwybodaeth yn cael ei ledaenu i rieni drwy wefan Powys, gwefan yr ysgol, Facebook yr ysgol, trydar yr ysgol a thrwy radio lleol (Radio Cymru, Radio Wales)

Deallwn bod cau ysgolion mewn argyfwng yn achosi llawer o gur pen i staff ac i rieni a cheisiwn roi gwybod i chi mewn da bryd. Byddwn yn gwneud pob ymgais i sicrhau bod rhywun o'r staff cymorth yn gallu ateb ffôn yn yr ysgol, ond y ffordd orau i dderbyn gwybodaeth yw drwy'r radio, gwefan yr ysgol, tudalen Facebook neu Twitter yr ysgol neu wefan Cyngor Sir Powys.

Diolch i chi am eich amynedd mewn amgylchiadau argyfyngus.

Yn gywir

Dafydd Jones
Pennaeth

